Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Gwobrwyon DVLA



**Yn DVLA** rydym yn gofalu am ein pobl ac yn cynnig amrywiaeth o fuddion

Syml | Gwell | Diogel

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Arian tan 2019

INF286/2W
4/19



- Mae parcio am ddim ar y safle a gwasanaeth **parcio a theithio am ddim lleol.**
- Rydym yn gweithio gyda rhieni sy'n weithwyr amser llawn, rhan-amser neu sifft i ddarparu **gofal plant** hawdd ei gyrraedd o ansawdd uchel **ar y safle** gyda gwasanaethau amlapio a gofal y tu allan i oriau i blant hŷn.
- Mae gennym grwpiau staff a **gweithlu amrywiol** i gefnogi cydweithwyr o gymunedau BAME (Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig), LHDT (Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol), staff ag anableddau, Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog, grŵp Cristnogol, grŵp sy'n edrych ar faterion rhywedd a rhwydwaith gofalwyr.
- Mae gennym **gampfa** ar y safle a nifer o **fwytai** a **chaffis** ar draws DVLA.
- Rydym yn pleidleisio dros **elusen ddewisedig** bob blwyddyn ac yn annog pawb i godi arian.
- Rydym yn cefnogi lles cyflogeion ac yn cynnig rhaglenni arloesol o ddigwyddiadau a mentrau lles. Rydym yn cynnig darpariaeth **iechyd galwedigaethol a chymorth i weithwyr** gynhwysfawr a pholisïau cefnogol fel gweithio hyblyg, rheoli absenoldeb a phresenoldeb.
- Mae gennym **Raglen Cymorth Cyflogeion** ar y ffôn am ddim sydd ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Mae hyn yn cynnig gwybodaeth a chyfarwyddyd cyfrinachol, annibynnol a diduedd ar ystod o faterion personol neu gysylltiedig â gwaith a gwasanaeth cwnsela am ddim.
- Er mwyn **setlo** i mewn i fywyd yn y DVLA, gallwch gael 50% o'ch cyflog yn gynnar am hyd at dri mis. Rydym hefyd yn cynnig cyfle i gael hyd at 50% o'ch cyflog mis Rhagfyr yn **gynnar**.
- Byddwch yn cael 25 diwrnod o **wyliau** (ac eithrio gwyliau banc), sy'n cynyddu un diwrnod y flwyddyn hyd at 30 diwrnod yn ôl yr un gyfradd a diwrnod o wyliau i ddathlu pen-blwydd swyddogol y Frenhines ym mis Mehefin.

- Gallwch brynu neu werthu hyd at bum diwrnod o **wyliau blynyddol** unwaith y flwyddyn yn gyfnewid am gyflog.
- Mae gennym **Wobrwyon Gwasanaeth Hir** 25, 35 a 45 mlynedd sy'n eich gwobrwyo â thalebau stryd fawr i ddiolch i chi am eich ymroddiad i'r asiantaeth.
- Rydym yn adolygu cyflogau'n flynyddol ac yn gweithio gyda chi i bennu amcanion clir ar gyfer bonysau blynyddol.
- Rydym yn cynnig opsiynau **pensiwn** gwych ar gyfer eich ymddeoliad.
- Gallwch dalu am docyn tymor i deithio i'r gwaith ar gludiant cyhoeddus o'ch cyflog heb dalu llog.
- Rydym yn cynnig cyflog ymlaen llaw i **brynu beic** a'r defnydd o ystafelloedd newid, cawodydd a siediau beic.
- Yn dilyn cwblhau cyfnod gwasanaeth cymwys gallwch gael 52 wythnos o absenoldeb **mamolaeth**, pythefnos o absenoldeb **tadolaeth** â thâl ac absenoldeb **rhiant a rennir** o 50 wythnos.
- Gallwch gael **absenoldeb arbennig** â thâl a heb dâl i ganiatáu i chi ddelio â'ch bywyd personol.
- Gallwch gael **prawf golwg a sbectol** am ddim yn dibynnu ar eich swydd.
- Mynediad at borth disgownt 'My lifestyle'.

- Mae gan DVLA fynediad at lawer o gyrff proffesiynol fel y **Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) a'r Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (CIPS)**. Rydym yn cynnig tanysgrifiad â thâl a chefnogaeth i staff astudio a chyflawni aelodaeth.
- Mae mynediad at gyrsiau e-ddysgu a hyfforddiant ystafell ddosbarth trwy **Ddysgu'r Gwasanaeth Sifil.**



## Gweithio hyblyg

Rydym yn deall pwysigrwydd cael cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn DVLA ac mae gennym nifer o wahanol opsiynau sy'n eich caniatáu i weithio'n hyblyg. Mae'r rhan fwyaf o'n swyddi; gweithio rhan-amser, rhannu swydd, gweithio yn ystod amser tymor ac oriau cyfnodol yn cynnwys 'oriau hyblyg' sy'n eich caniatáu i ddilyn eich diddordebau y tu allan i'r gwaith. Mae seibiannau gyrfa a gwirfoddoli ar gyfer elusennau hefyd yn opsiwn i'r holl staff.

## Eich datblygiad personol

Bydd DVLA yn eich cefnogi i gyrraedd eich potensial llawn, gan gynnig swyddi gwobrwyol a heriol, cynlluniau hyfforddi a chyfleoedd datblygu parhaus. Mae yna rwydweithiau mentora a hyfforddi a all ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau yn yr asiantaeth, ochr yn ochr â dysgu ar-lein, cyrsiau wyneb yn wyneb, a'n Canolfan Adnoddau Agored ein hunain sy'n dangos sgyrsiau ysbrydoledig TED a deunydd darllen ar gyfer eich datblygiad.

## Gwobrwyo perfformiad arbennig

Mae DVLA yn teimlo ei bod yn bwysig cydnabod perfformiad rhagorol a gwobrwyo staff sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at waith yr asiantaeth. Mae ffyrdd o wobrwyo ein staff yn cynnwys tystysgrifau, bonysau perfformiad, talebau siopa ar y stryd fawr ac adolygiadau cyflog blynyddol.

Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)
Longview Road
Treforys
Abertawe
SA6 7JL

© Hawlfraint y Goron 2017

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/ neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain, TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: **psi@nationalarchives.gsi.gov.uk**

Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angeni chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael ar ein gwefan yn **www.dvla.gov.uk**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn Adnoddau Dynol, DVLA, Longview Road, Treforys, Abertawe SA6 7JL